

From: [Eifion Bibby](#)
To: [Wylfa Newydd](#)
Subject: RE: Wylfa Newydd Nuclear Power Station (EN010007) Our Ref:- Wyl.HAR.M-1-C
Date: 10 February 2020 11:11:58
Attachments: [EN010007-003869-FINAL \(Welsh\) - BEIS Wylfa Consultation Letter 231019 -refer to item 34 .pdf](#)
[Registration for project Wylfa Newydd Nuclear Power Station with the Planning Inspectorate.msg](#)

REGISTRATION IDENTIFICATION NUMBER:- 20010959

Dear Sirs ,

With reference to the e-mail hereunder ,and item 34 of the appended correspondence in English (or ,alternatively, item 33 in Welsh) we are instructed as Agents ,on behalf of our client Messrs Harper to confirm that as there has been no response received on behalf of Horizon Nuclear Power to seek to address the points raised in the attached representation submitted (- acknowledged on 26th July 2018) ,the objection is maintained .

Yours faithfully,
Eifion Bibby

J Eifion Bibby MRICS FAAV

Director & RICS Registered Valuer

For and on behalf of :

Davis Meade Property Consultants, Plas Eirias Business Centre, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8BF.

Mobile No: [REDACTED] **Tel: 01492 510360 Fax: 01492 512151**

Website: www.dmpropertyconsultants.com

This email and any files transmitted with it are privileged and confidential information and intended solely for the use of the addressee. Neither the confidentiality nor any privilege in this email is waived, lost or destroyed by reason that it has been transmitted other than to the addressee. If you are not the intended recipient you are hereby notified that you must not disseminate, copy or take any action in reliance on it. If you have received a message in error you must notify us immediately by return email to the sender and delete the original message and any copies. Davis Meade Property Consultants accepts no liability for any damages caused in the transmission of this email.

Davis Meade Property Consultants is the trading name of Davis Meade Property Consultants Limited a company incorporated in England No. 6897243. Registered Office 103 Beatrice Street, Oswestry, Shropshire, SY11 1HL

PRIVACY NOTICE: click here:

http://www.dmpropertyconsultants.com/files/7015/2716/9947/Privacy_Notice.pdf

From: Wylfa Newydd <Wylfa@planninginspectorate.gov.uk>

Sent: 24 January 2020 10:06

To: Eifion Bibby <eifionbibby@dmpropertyconsultants.com>

Subject: Wylfa Newydd Nuclear Power Station (EN010007)

Annwyl Syr / Madam

Gorsaf Bwer Niwclear Wylfa Newydd (EN010007)

Eich cyfeirnod: 20010959

Gweler isod ddolen i lythyr sy'n gofyn am ddiweddariad gan yr Ymgeisydd ar faterion sydd heb eu datrys a unrhyw sylwadau gan yr Ymgeisydd, yr holl Blwyfi a Diddordeb a Cadw ar ymgynghoriad yr Ysgrifennydd Gwladol.

Gofynnir am sylwadau ar yr ymatebion i ymgynghoriad yr Ysgrifennydd Gwladol a diweddariad gan yr Ymgeisydd ar hynt materion sydd heb eu datrys erbyn dydd Mawrth 11 Chwefror 2020.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010007-003925>

Os na fydd y ddolen hon yn agor yn awtomatig, torrwch a'i gludo i mewn i'ch porwr.

Dear Sir / Madam

Wylfa Newydd Nuclear Power Station (EN010007)

Your reference: 20010959

Please find below a link to the letter requesting an update from the Applicant on outstanding issues and comments from the Applicant, all Interested Parties and Cadw on the Secretary of State's Consultation:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010007-003925>

Representations on the responses to the Secretary of State's consultation and an update from the Applicant on the progress of outstanding issues are requested by Tuesday 11 February 2020.

If this link does not open automatically, please cut and paste it into your browser.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully

Tîm Cais Wylfa Newydd/ Wylfa Newydd Case Team

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol / National Infrastructure Planning

Yr Arolygiaeth Gynllunio / The Planning Inspectorate

Temple Quay House

2 The Square

Bristol

BS1 6PN

Llinell Gymorth / Helpline: 0303 444 5000

E-Bost / Email: wylfa@planninginspectorate.gov.uk

Wê / Web: infrastructure.planninginspectorate.gov.uk (Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol / National Infrastructure Planning)

Wê / Web: www.gov.uk/government/organisations/planning-inspectorate

(Gwaith achos ac apeliadau / Casework and appeals)

Twitter: @PINSgov

This email has been scanned by BullGuard antivirus protection.

For more info visit www.bullguard.com



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

Telephone: 020 7215 5677
Email: beiseip@beis.gov.uk
Web: www.gov.uk/beis

To: Horizon Nuclear Power Limited,
Partïon â Diddordeb, Gweithrediaeth
Iechyd a Diogelwch a Cadw

Your Ref:

Our Ref:

Cc

Date: 23 October 2019

Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwiliadau) 2010

**Cais gan Horizon Nuclear Power Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu i Atomfa
Arfaethedig Wylfa Newydd, Ynys Môn**

**CAIS AM WYBODAETH A SYLWADAU AR Y CAIS, A HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD YR
YSGRIFENNYDD GWLADOL I BENNU DYDDIAD NEWYDD AR GYFER PENDERFYNU AR Y CAIS
- EN010007**

Annwyl Syr neu Fadam,

Ar ôl cwblhau'r archwiliad ynglŷn â'r cais am Atomfa Wylfa Newydd ("y Datblygiad") ar 23 Ebrill 2019, cyflwynodd yr Awdurdod Archwilio Adroddiad ac Argymhelliad ynglŷn â'i ganfyddiadau a'i gasgliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ("yr Ysgrifennydd Gwladol") ar 23 Gorffennaf 2019. Yn unol ag adran 107 o Ddeddf Cynllunio 2008, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis i benderfynu ar y cais.

Mae sawl mater lle byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiolchgar pe gallai'r partïon a nodir mewn print **tywyll** ddarparu diweddariad neu ragor o wybodaeth. Bydd sylwadau ychwanegol gan unrhyw bartïon sydd â buddiant yn hyn o beth ar y pwyntiau hyn hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r materion wedi'u grwpio yn ôl pennawd pwnc.

**Trwyddedau a chaniatadau (gan gynnwys Trwyddedau Morol a thrwyddedau Safleoedd
Hylosgi Gweithredol)**

1. Mae nifer o drwyddedau a chaniatadau eraill y mae'n rhaid i'r Ceisydd eu sicrhau cyn y caiff adeiladu a gweithredu'r Datblygiad (os rhoddir caniatâd). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod rhiant-gwmni'r Ceisydd, Hitachi Limited, wedi mynd ati yn ystod yr archwiliad, i gyhoeddi ym mis Ionawr 2019 ei fod yn atal y prosiect ac yn tynnu cyllid ar gyfer y Datblygiad yn ôl. Wedi hynny, tynnodd y Ceisydd ei geisiadau am amryw o drwyddedau a chaniatadau eraill a oedd yn ofynnol ar gyfer y datblygiad yn ôl. O dan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol (EN-1 ac EN-6), mae'n ofynnol i geiswyr ddangos bod prosesau ar waith i fodloni gofynion perthnasol o ran cyfundrefnau trwyddedu a chfundrefnau caniatáu eraill er mwyn hwyluso penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn benodol, mae rhan 4.10 o EN-1 yn egluro y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol weithio'n agos gyda rheoleiddwyr ac mae paragraff 4.10.3 yn egluro y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol weithio ar y dybiaeth y caiff y rheoliadau amgylcheddol eu cymhwyso a'u gorfodi yn y modd priodol, ac felly y dylai weithredu i ategu'r rheoliadau amgylcheddol ond nid eu dyblygu. Er hynny, mae paragraff 4.10.8 yn dweud na ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod caniatâd "on the basis of pollution impacts unless it has good reason to believe that any relevant necessary operational pollution control permits or licences or other consents will not subsequently be granted."
2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** ddangos sut y bydd yn rheoli rhai effeithiau amgylcheddol ac eraill a fyddai fel arfer yn cael eu rheoli drwy drwydded neu gydsyniad arall yn sgil tynnu ei geisiadau am drwyddedau a chaniatadau o'r fath yn ôl. Yn benodol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** ddarparu:
 - fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r ddogfen "Other Consents and Licences", a gyflwynwyd ddiwethaf ar chweched terfyn amser yr archwiliad;
 - gwybodaeth a fydd yn dangos sut y bydd yn rheoli effeithiau a fyddai'n cael eu rheoli drwy drwydded Safle Hylosgi Gweithredol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gofyn i'r **Ceisydd** a **Chyfoeth Naturiol Cymru** gadarnhau a oes cytundeb wedi'i wneud ynglŷn â dull y Ceisydd o fodelu dyddodiadau nitrogen ac asideiddio llystyfiant ac a yw'r cytundeb wedi ystyried y sefyllfa waethaf posibl; a
 - gwybodaeth yn dangos sut y bydd yn rheoli effeithiau a fyddai'n cael eu rheoli drwy Drwyddedau Morol. Yn benodol, sut y câi Cynllun Lliniaru Mamaliaid Morol, cynllun rhywogaethau morol estron ymledol ac unrhyw drwyddedau Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir eu sicrhau.
3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gwahodd sylwadau gan **Gyfoeth Naturiol Cymru**, y **Swyddfa Rheoleiddio Niwclear**, **Cyngor Sir Ynys Môn**, yr **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**, **Dŵr Cymru** ac unrhyw gorff cydsynio neu gorff trwyddedu arall ynghylch unrhyw risgiau neu rwystrau i'r gwaith o reoli effeithiau a allai ddeillio o'r ffaith bod y Ceisydd wedi tynnu ceisiadau am drwyddedau yn ôl.

Ecoleg a Bioamrywiaeth

Sylwadau Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon o dan Gonfensiwn Espoo

4. Ar 15 Chwefror 2019 ymatebodd Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon i hysbysiad am y datblygiad arfaethedig o dan Gonfensiwn Espoo (Cyfeirnod yn y llyfrgell arholi yw [AS-0153](#)). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ymateb hwn wedi dod i law yn ystod yr archwiliad a bod llawer o'r materion a godwyd ynddo wedi'u harchwilio. Er hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am sylwadau ar yr ymateb gan y **Ceisydd a phob parti sydd â buddiant** yn hyn o beth, yn arbennig **Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru**.

Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus tra phwysig

5. Cynigiodd y partïon gyflwyniadau dros dro i'r Archwiliad mewn perthynas â'r sail dros randdirymiad o dan Erthygl 6(4) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd mewn perthynas ag effeithiau aflonyddwch posibl ar nodweddion cymwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig ("SPA") Môr-wenoliaid Ynys Môn yn sgil y Datblygiad. Gwahoddir y **Ceisydd**, mewn ymgynghoriad â **Chyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill sydd â buddiant** yn hyn o beth yn ôl yr angen, i ddarparu tystiolaeth ynglŷn â'r canlynol:
 - a oes unrhyw atebion amgen ymarferol ar gyfer cyflawni amcan cyffredinol y cynllun a fydd yn llai niweidiol i gyfanrwydd y safle;
 - unrhyw resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig dros fwrw ymlaen â'r cynllun neu'r prosiect;
 - y mesurau cydadferol a gynigir i sicrhau bod cydlynid cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 yn cael ei ddiogelu a sut y caiff y rhain eu sicrhau.

Safleoedd Lliniaru Ecolegol

6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi cynnig cryn dipyn o waith creu a gwella cynefinoedd i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl yn sgil y Datblygiad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod pryderon wedi'u mynegi gan nifer o bartïon sydd â buddiant ynghylch hyd y brydles tir ar gyfer gwella bywyd gwyllt ac adleoli ymlusgiad a rheoli'r safleoedd lliniaru hyn ar ôl 2032 pan ddaw prydles y Ceisydd i ben. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau a oes camau pellach wedi'u cymryd i sicrhau'r hawliau i'r safleoedd lliniaru hyn pan ddaw'r brydles i ben, a pha fesurau y mae wedi'u cymryd, os yw wedi cymryd camau o gwbl, i sicrhau manteision y tu hwnt i'r cyfnod prydlesu o 15 mlynedd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gwahodd sylwadau gan **Gyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ("NWWT")** ar y mater hwn.

Lliniaru Effeithiau'r Gwaith Adeiladu ar y Tir ar y Fôr-wennol Bigddu

7. *Sŵn*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi na roddwyd sylw i bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghylch pa mor ymarferol oedd mesur a gorfodi lefelau sŵn ar y safle adeiladu a'u pryderon ynghylch sut y câi'r gwynt a'r tywydd eu cymryd i ystyriaeth er mwyn rheoli sŵn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** a **Chyfoeth Naturiol Cymru** gadarnhau a oes cytundeb wedi'i wneud ar ôl i'r Archwiliad gau. Os na chafwyd cytundeb, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**, gyda chytundeb **Cyfoeth Naturiol Cymru**, ddarparu cynllun i fesur a rheoli lefelau sŵn adeiladu, (gan gymryd i ystyriaeth yr holl amodau atmosfferig) neu esbonio pam nad yw hyn yn briodol neu pam na ellir cytuno arno.

8. *Aflonyddu ar Olygfeydd*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi gan Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol ("eNGOs") ynghylch y diffyg gwaith i liniaru'r aflonyddu ar y golygfeydd i'r gorllewin o Afon Cafnan o gofio graddfa'r gwaith yn ardal adeiladu Twmpath E. I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn deall bod y Ceisydd wedi cadarnhau y byddai'n cynnwys rheolaeth yn ei God Arferion Adeiladu ar gyfer Prif Safle'r Atomfa ("MPSSCoCP"). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau a yw'r MPSSCoCP wedi'i ddiweddarau, gyda chytundeb Cyfoeth Naturiol Cymru a'r eNGOs sydd â buddiant yn hyn o beth, i gyfeirio at y mesur rheoli y cytunwyd arno. Os nad oes cytundeb wedi'i wneud, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**, gyda chytundeb **Cyfoeth Naturiol Cymru** a'r **eNGOs** perthnasol ddarparu MPSSCoCP diwygiedig sy'n cynnwys dulliau rheoli ar gyfer aflonyddu ar y golygfeydd.

9. *Aflonyddu gan Ddefnyddwyr Hamdden*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru a'r eNGOs wedi gofyn yn ystod yr archwiliad a oedd digon o fanylion yn Strategaeth Rheoli'r Gweithlu ("WFMS") i reoli ymddygiad ymwelwyr er mwyn osgoi tarfu ar y môr-wenoliaid, a bod pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru a'r eNGOs heb gael sylw erbyn diwedd yr archwiliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**, **Cyfoeth Naturiol Cymru** a'r **eNGOs** gadarnhau a oes cytundeb wedi'i wneud ar y mater hwn ar ôl i'r archwiliad gau. Os na chafwyd cytundeb, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**, gyda chytundeb **Cyfoeth Naturiol Cymru** a'r **eNGOs** perthnasol, ddarparu WFMS diwygiedig sy'n rheoli ymddygiad ymwelwyr er mwyn osgoi aflonyddwch i'r môr-wenoliaid neu esbonio pam nad yw hyn yn briodol neu pam na ellir cytuno arno.

10. *SPA Aber Dyfrdwy*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud pe bai'r môr-wenoliaid pigddu'n troi cefn ar y nythfa ym Mae Cemlyn, y gallai hyn effeithio ar

boblogaeth y môr-wenoliaid pigddu yn SPA Aber Dyfrdwy ac arwain felly at AEol ar y SPA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**, mewn ymgynghoriad â **Chyfoeth Naturiol Cymru**, fynd i'r afael â phryderon Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y cysylltiad rhwng SPA Bae Cemlyn a SPA Aber Dyfrdwy, neu ddangos sut y byddai mesurau cydadferol ar gyfer môr-wenoliaid SPA Ynys Môn yn effeithio ar SPA Aber Dyfrdwy.

Strategaeth Rheoli Tirweddau a Chynefinoedd

11. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd, mewn ymateb i bryderon ynghylch darparu ardaloedd at greu cynefinoedd, wedi diwygio'r ffigurau arwynebedd ar gyfer porfa fras a thir glas tywarchen fân yn Nhabl 4.1 ar dudalen 61 o'r Strategaeth Rheoli Tirweddau a Chynefinoedd ("LHMS"). Ond, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi nad yw'r ffigurau yn nhestun adran 6.5 ar dudalen 110 o'r LHMS wedi'u diweddarau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth yn y darpariaethau a wnaeth y Ceisydd o ran cynnydd net mewn cynefin, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau ei fod wedi diweddarau'r testun yn adran 6.5 â'r ffigurau diwygiedig yn Nhabl 4.1.

Rhwydwaith Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA")

12. Mae paragraff 5.3.11 o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol ("NPS") EN-1 (Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni) yn dweud hyn: *"(w)here a proposed development on land within or outside an SSSI is likely to have an adverse effect on an SSSI (either individually or in combination with other developments), development consent should not normally be granted. Where an adverse effect, after mitigation, on the site's notified special interest features is likely, an exception should only be made where the benefits (including need) of the development at this site, clearly outweigh both the impacts that it is likely to have on the features of the site that make it of special scientific interest and any broader impacts on the national network of SSSIs"*.
13. Mae'r Datganiad Amgylcheddol a chyflwyniadau'r partion yn cyfeirio at effeithiau posibl ar dri SoDdGA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** ac unrhyw **barti sydd â buddiant** yn hyn o beth roi rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r effeithiau posibl ar SoDdGA Tre'r Gof, SoDdGA Cae Gwyn a SoDdGA Bae Cemlyn yn effeithio ar y rhwydwaith cenedlaethol ehangach o SoDdGAau.

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

14. Lliniaru

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystod yr archwiliad, wedi dweud bod yna risg o ddirywiad yng nghorff dŵr daear eilaidd Ynys Môn a chorff dŵr arfordirol Ynysoedd y Moelrhoniaid ond bod achos rhesymol wedi'i wneud y câi pob cam ymarferol ei gymryd i liniaru'r effeithiau andwyol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud y gallai'r gwaith lliniaru hwn

gael ei sicrhau dwy'r gorchymyn caniatâd datblygu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i **Gyfoeth Naturiol Cymru** a'r **Ceisydd** gadarnhau a oes mesurau lliniaru priodol wedi'u sicrhau.

15. *Rhanddirymiad*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi na fynegwyd unrhyw safbwyntiau yn ystod yr archwiliad ynghylch a yw manteision ehangach y Datblygiad i'r amgylchedd ac i'r gymdeithas yn drech na manteision cyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac mae'n gwahodd sylwadau ar y pwynt hwn gan y **Ceisydd** ac **unrhyw bartïon sydd â buddiant** yn hyn o beth.

Llifogydd

16. *Perygl Llifogydd – Prawf Eithrio*

Er y bydd y Datblygiad wedi'i leoli'n bennaf mewn ardaloedd Parth Llifogydd A, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi y byddai rhywfaint o'r gwaith morol a rhannau o'r gwaith i wella priffyrdd yr A5052 oddi ar linell y briffordd yn cael eu lleoli mewn ardaloedd Parth Llifogydd C. Mae EN-1 yn dweud y dylid defnyddio'r Prawf Eithrio pan fo prosiectau seilwaith wedi'u lleoli yn ardaloedd Parth Llifogydd C. Er mwyn i'r Prawf Eithrio gael ei basio:

- rhaid dangos bod y prosiect yn rhoi manteision cynaliadwyedd ehangach i'r gymuned sy'n gorbwyso'r perygl llifogydd;
- dylai'r prosiect fod ar dir datblygadwy, tir a ddatblygwyd o'r blaen neu, os nad yw ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, na ddylai fod safleoedd amgen rhesymol ar gael ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, yn unol ag unrhyw eithriadau a nodwyd yn yr NPSs sy'n ymwneud â thechnoleg yn benodol;
a
- rhaid i asesiad o'r perygl llifogydd ddangos y bydd y prosiect yn ddiogel, heb gynyddu'r perygl llifogydd mewn mannau eraill a, lle bo'n bosibl, y bydd yn lleihau'r perygl o lifogydd yn gyffredinol.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i **Gyngor Sir Ynys Môn** a **Chyfoeth Naturiol Cymru** gadarnhau na fydd y Datblygiad yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill, neu a yw'r Ceisydd wedi dangos bod modd lliniaru'r perygl o lifogydd i lefel dderbyniol.

17. *Gwelliannau Priffyrdd oddi ar Linell yr A5025 – TAN15*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi derbyn y ceid mwy o effaith yn sgil perygl llifogydd wrth draphont Afon Alaw. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru: "the Secretary of State will need to consider the scheme in the context of non-compliance

with TAN15 at this specific location, with or without landowner agreement” (gweler isod). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd sylwadau gan y **Ceisydd** ac unrhyw **bartïon sydd â buddiant** yn hyn o beth ynghylch cymhwyso TAN15 at yr elfen hon o'r gwelliannau priffyrdd oddi ar yr A5025.

18. *Gwelliannau Priffyrdd oddi ar Linell yr A5025 – storfeydd cydadferol*

O ran y perygl llifogydd wrth Draphont Afon Alaw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi dweud yn ystod yr archwiliad ei fod yn mynd ar drywydd cytundeb cyfreithiol gyda thirfeddiannwr yn Llanfachraeth i ganiatáu llifogydd o adran 3 yr A5025 ar dir preifat. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau a oes cytundeb wedi'i wneud gyda'r tirfeddiannwr.

19. *Safleoedd Cydadfer Ecoleg*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynegi pryder ynghylch effeithiau amgylcheddol gwaith creu gweundir o fewn safleoedd cydadfer y SoDdGA, gan ddweud y dylid cynnal dadansoddiad o'r ôl-ddŵr ar y safleoedd cydadfer. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig y testun ychwanegol a ganlyn i'w gynnwys yn yr LHMS er mwyn sicrhau dadansoddiad o'r ôl-ddŵr:

Drainage modifications will be informed by a suitable analysis (backwater assessment impacts or similar) which will consider the flood risk impacts to 3rd parties from the works. The detailed drainage design should demonstrate no increase in flood risks to 3rd parties due to the compensation site works

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod y Ceisydd wedi cynnwys y testun a awgrymwyd yn ei LHMS ond ei fod wedi ychwanegu'r term "significant" at y cynnydd mewn peryglon llifogydd. Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r testun hwn gael ei ddileu neu i ddiffiniad gael ei roi o ystyr "significant increase" yn y perygl llifogydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi ymateb ar ddiwedd yr archwiliad i esbonio'r term "significant", ond nad oedd modd i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i **Gyfoeth Naturiol Cymru** gadarnhau a yw'n fodlon ar yr esboniad a roddwyd gan y Ceisydd.

20. *Safle Parcio a Theithio'r Dalar Hir*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â pherygl llifogydd ar safle Parcio a Theithio'r Dalar Hir a bod y Cyngor wedi codi'r risg y gallai rwbwl o Nant Dalar Hir arwain at lifogydd ar y ffordd sylfaenol/meysydd parcio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi nad aeth y Ceisydd i'r afael â phryderon y Cyngor ac na wnaeth y Cyngor ei godi eto fel mater erbyn diwedd yr archwiliad. Mae'r

Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gadarnhad gan **Gyngor Sir Ynys Môn** a yw'r mater hwn yn dal yn destun pryder, ac os felly, a yw'n dymuno awgrymu unrhyw fesurau lliniaru.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

Archaeoleg

21. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd, yn ystod yr archwiliad ac yn dilyn y cyhoeddiad bod Hitachi Limited yn tynnu ei gyllid ar gyfer y Datblygiad yn ôl, wedi rhoi'r gorau i bob gwaith archaeolegol ymwthiol ar safle'r Datblygiad ac o'i amgylch a'i fod wedi dweud na fyddai'n glynu wrth y cynllun ymchwilio ysgrifenedig ("WSI") y cytunodd arno gyda Chyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd ("GAPS") a Cadw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod y Ceisydd wedi nodi yn ddiweddarach yn yr archwiliad ei fod yn gweithio i gyflawni asesiad a dadansoddiad ôl-gloddio llawn o'r darganfyddiadau archaeolegol ar safle'r Datblygiad ac o'i amgylch yn unol â'r canllawiau ynghylch yr arferion gorau erbyn diwedd Hydref 2019. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ddiweddariad gan y **Ceisydd** ar gynnydd y gwaith hwn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gofyn am ymateb gan **Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Cadw a GAPS** o ran a ydynt o'r farn bod yr ymchwiliadau archaeolegol ar ôl cloddio wedi'u cwblhau neu y byddant yn cael eu cwblhau mewn modd boddhaol.

Henebion a allai gael eu cofrestru

22. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod nifer o asedau archaeolegol o werth uchel neu o bwysigrwydd cenedlaethol wedi'u lleoli ar safle'r Datblygiad neu o'i amgylch, ac yn ystod yr archwiliad dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn ystyried cofrestru rhai o'r asedau er mwyn osgoi achosi unrhyw niwed sylweddol iddynt. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn deall bod chwe safle o'r fath y cytunwyd eu bod o ansawdd a allai gael ei chofrestru ar ddiwedd yr Archwiliad.
23. Mae NPS EN-1 yn dweud bod rhaid i asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi'n heneb gofrestredig ond sydd heb eu hasesu'n ffurfiol ar gyfer eu dynodi eto, neu yr aseswyd eu bod yn rhai y gellid eu dynodi ond nad ydynt wedi'u dynodi eto, ddod o dan yr un ystyriaethau â'r rhai sy'n berthnasol i safleoedd treftadaeth dynodedig. Mae NPS EN-1 hefyd yn dweud y dylai unrhyw niwed i asedau dynodedig, neu golli'r asedau hyn, fod yn gyfan gwbl eithriadol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd**:
- cadarnhau cyflwr presennol y chwe safle hyn;
 - darparu manylion am nodweddion y safleoedd hyn sy'n peri eu bod o ansawdd sy'n golygu y gallent gael eu cofrestru;
 - cadarnhau'r sail dros haeru bod modd osgoi niwed sylweddol i'r asedau hyn drwy gloddio archaeolegol, adroddiadau, etc; a

- darparu tystiolaeth i ddangos sut mae'r niwed i'r asedau archaeolegol o werth uchel neu sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, neu golli'r rhain, ar safle'r Datblygiad ac o'i amgylch yn gwbl eithriadol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gwahodd sylwadau gan **Lywodraeth Cymru, Cadw, Cyngor Sir Ynys Môn a GAPS.**

Gofyniad SCP8 yn y Cynllun Ymchwilio Archaeolegol Ysgrifenedig

24. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, yn ystod yr archwiliad, wedi gofyn am ddiwygiad i ofyniad SCP8 i'w gwneud yn ofynnol bod Cynllun Lliniaru Archaeolegol a gymeradwywyd ar waith cyn i'r gwaith ddechrau i glirio a pharatoi'r safle, fel ei fod yn cyd-fynd â'r dull a gynigir ar gyfer gweithfeydd eraill yn ystod eu cyfnod adeiladu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y geiriad a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i wrthwynebu gan y Ceisydd ar y sail bod Cynllun Lliniaru Archaeolegol, yn ychwanegol at y Cynllun Ymchwilio Archaeolegol Ysgrifenedig yr oedd wedi cytuno arno gyda Chyngor Sir Ynys Môn, yn ddiangen oherwydd graddfa a natur anymwithiol y gwaith o glirio a pharatoi'r safle. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am sylwadau gan y **Ceisydd a Llywodraeth Cymru** ar y testun a ganlyn:

1) No development shall take place within the WNDA area until the Applicant or their agent or their successors in title has secured the implementation of a programme of archaeological work in accordance with a written scheme of investigation which has been submitted and approved in writing by Isle of Anglesey County Council, in consultation with Cadw.

2) No demolition/development shall take place other than in accordance with the Written Scheme of Investigation approved under condition (1).

3) Commissioning of Unit 2 shall not take place until the site investigation and post investigation assessment has been completed in accordance with the programme set out in the Written Scheme of Investigation approved under condition (1) and the provision made for analysis, publication and dissemination of results and archive deposition has been secured.
Ymdrinnir â hyn yn PW9.

Traffig a Thrafnidiaeth

Pen Troi

25. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cyngor Sir Ynys Môn, tua diwedd yr archwiliad, wedi gofyn am gael pen troi arall yn ymyl y Datblygiad yn lle'r man troi presennol i gerbydau a gâi ei cholli o ganlyniad i gyffordd ffordd fynediad arfaethedig y Datblygiad, ac na chafodd yr Awdurdod Archwilio gyfle i edrych yn fanwl ar y mater hwn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd sylwadau gan y **Ceisydd** ynghylch diwygiad

arfaethedig Cyngor Sir Ynys Môn i ofyniad WN1(3) yn Atodlen 3 i'r gorchymyn caniatâd datblygu drafft a welir isod:

(h) A scheme for the provision of a vehicle turning head which will form part of the public highway at the layby adjacent to access to the WNDA, which scheme must include the details of the design of the turning head, details of when this will be delivered, together with an explanation of how this will be dedicated as public highway, how it will be classified and what traffic regulation measures (including any applicable speed limits or waiting restrictions) will be put in place over the turning head prior to it opening for use for by the public.

26. Os nad yw'r diwygiad arfaethedig i ofyniad WN1 yn dderbyniol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd y **Ceisydd a Chyngor Sir Ynys Môn** i gytuno ar eiriad sy'n mynd i'r afael â phryderon y Cyngor a'i roi i'r Ysgrifennydd Gwladol i gael ei ystyried.

Parcio Anghyfreithlon

27. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod pryderon ynghylch parcio anghyfreithlon posibl wedi'u codi gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cyngor Sir Ynys Môn, ar ddiwedd yr archwiliad, o'r farn bod y mesurau a gynigiwyd i ymdrin â pharcio anghyfreithlon yn ddiffygiol, gan ofyn am ragor o ddarpariaeth yn Strategaeth Rheoli'r Gweithlu ("WKMS") yn nodi'r camau y bydd y Ceisydd yn eu cymryd mewn achosion a gadarnheir o barcio anghyfreithlon, a gofyn hefyd am ddiweddariad i'r Cod Ymarfer Adeiladu ("CoCP") i'w gwneud yn glir bod rhaid i ymchwiliad ac unrhyw gamau disgyblu priodol gael eu nodi a'u gweithredu o fewn 5 diwrnod ar ôl i gŵyn gychwynnol ddod i law. Gofynnodd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd i bob digwyddiad ac ymchwiliad gael eu hadrodd i'r Cyngor. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau a yw'r WKMS a'r CoCP wedi'u diweddarau i fynd i'r afael â phryderon y Cyngor.

Y Dalar Hir

28. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd yr archwiliad, wedi mynegi pryderon ynghylch modelau capasiti Cyffordd 4 yn y Dalar Hir, gan ofyn am gadarnhad a oedd y gwaith modelu wedi'i seilio ar 1,900 o symudiadau cerbydau bob dydd ynteu 1,000 o symudiadau cerbydau bob dydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau'r ffigur a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu'r gofynion dyddiol i gerbydau, ac am ei farn ar ddiwygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru i Ofyniad PR5 Dyluniad Mynedfa'r Safle.

Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin

29. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd wedi cadarnhau, yn ystod yr archwiliad, na fyddai angen Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ("AIL") mewn perthynas

â gwaith rhif 12, a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i hyn gael ei sicrhau drwy ddiwygio'r CoCP, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gadarnhad gan y **Ceisydd a Llywodraeth Cymru** fod y CoCP wedi'i ddiwygio i fynd i'r afael â'r mater hwn neu esbonio pam nad yw hyn yn briodol neu pam na ellir cytuno arno.

Llety i Dwristiaid a'r Gwaith Adeiladu

30. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch effaith y galw am dai yn ystod y cyfnod adeiladu, yn enwedig o ran llety i dwristiaid. I fynd i'r afael â'r pryder hwn, awgrymodd Llywodraeth Cymru y dylid cynnwys y gofyniad canlynol:

The number of construction workers occupying accommodation in the Tourist Sector shall at no time exceed 1100.

31. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd sylwadau gan y **Ceisydd** ynghylch cyfyngiad ar ddefnyddio llety twristiaid gan weithwyr adeiladu, ac am fanylion am sut mae'r Ceisydd yn bwriadu monitro'r defnydd o lety twristiaid gan ei staff a'i iscontractwyr a gorfodi'r gofynion.

Prynu Gorfodol

Darpariaethau Amddiffynnol

32. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi na chytunwyd ar ddarpariaethau amddiffynnol pwrpasol mewn perthynas â buddiannau Network Rail Infrastructure Limited ("Network Rail") a buddiannau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear erbyn diwedd yr archwiliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd, Network Rail a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear** gadarnhau a gyrhaeddwyd unrhyw gytundeb ar ddarpariaethau amddiffynnol pwrpasol ac, os felly, rhoi'r darpariaethau y cytunwyd arnynt i'r Ysgrifennydd Gwladol. Os nad oes cytundeb, byddai'n ddefnyddiol cael syniad a yw cytundeb yn bosibl ac, os felly, pryd y gellid ei wneud. Os oes cytundeb wedi'i wneud, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i **Network Rail a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear** nodi a fyddant yn tynnu eu sylwadau yn ôl ai peidio (gweler adran 127(1)(b) o Ddeddf Cynllunio 2008).

Gwrthwynebiadau a Chytundebau sy'n dal heb eu datrys

33. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod gwrthwynebiadau heb eu tynnu'n ôl neu fod cytundebau'n dal heb eu gwneud rhwng y Ceisydd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RE a JA Roberts, G ac I Roberts a WM, EW ac M Harper ar ddiwedd yr archwiliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd a'r tîrfeddianwyr uchod** am ddiweddariad ar statws y trafodaethau.

Terfyn Amser Prynu Gorfodol

34. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Erthygl 28 o'r gorchymyn caniatâd datblygu arfaethedig wedi'i diwygio i ganiatáu cyfnod o 8 mlynedd, yn hytrach na'r 5 mlynedd arferol, i'r Ceisydd arfer ei bwerau prynu gorfodol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes gan y Ceisydd yn ystod yr archwiliad i gyfiawnhau hyn. Er hynny, er mwyn ystyried y mater hwn yn llawn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** roi rhagor o fanylion ynghylch pam mae'r cyfnod o 8 mlynedd yn angenrheidiol ac yn gymesur yn yr achos hwn. Byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddordeb hefyd mewn sylwadau gan **unrhyw dirfeddianwyr y mae prynu gorfodol yn effeithio arnynt** ynglŷn â'r pwynt hwn.

Polisi Cynllunio Cymru a'r Datganiad Argyfwng Hinsawdd

35. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, yn dilyn yr archwiliad, wedi cyhoeddi ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft at ddibenion ymgynghori ar 7 Awst 2019 gyda'r ymatebion i'w cyflwyno erbyn 1 Tachwedd 2019. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r archwiliad gau, wedi gwneud datganiad argyfwng hinsawdd ar 29 Ebrill 2019 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i helpu rhannau eraill o'r economi i symud yn bendant oddi wrth danwyddau ffosil, gan atgyfnerthu'r gefnogaeth i'r polisiau a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel (2019). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd sylwadau gan unrhyw **barti sydd â buddiant** mewn perthynas â'r Datblygiad a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru a'i datganiad argyfwng hinsawdd.

Datganiad Dylunio a Mynediad

36. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystod yr archwiliad, wedi cynnig geiriau i'w hychwanegu at y Datganiad Dylunio a Mynediad ("DAS") er mwyn lliniaru effeithiau'r Cyfleuster Dadlwytho Morol ar dirwedd a golygfeydd yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn, ond nad oedd y geiriau hyn wedi'u cynnwys yn fersiwn terfynol y DAS. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i'r **Ceisydd** gadarnhau a yw'r testun a awgrymwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gynnwys yn fersiwn terfynol y DAS.

Awdurdod Gorfodi Morol

37. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi o ran gofynion sy'n ymwneud â gwaith morol sy'n is na'r marc distyll cymedrig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ymwybodol bod Erthygl newydd, Erthygl 86, wedi'i mewnosod er mwyn ei gwneud yn glir mai

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer tir sydd o dan y marc distyll cymedrig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gadarnhad gan **Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn** a ydynt yn fodlon â'r drafft isod:

For the purposes of section 173 of the 2008 Act, the Welsh Ministers will be the relevant planning authority in respect of land seaward of the mean low water springs.

38. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw canol nos, nos Fawrth 31 Rhagfyr 2019.

39. Dylid cyflwyno'r ymateb drwy'r ebost i wylfa@planninginspectorate.gov.uk. Anfonwch unrhyw ymateb mewn copi caled at Dîm Prosiect Atomfa Wylfa Newydd, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, d/o yr Arolygiaeth Gynllunio, Eagle Wing 3/18, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol, BS1 6PN. Os cewch anhawster wrth gyflwyno ymateb erbyn y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, rhowch wybod i'r Tîm Prosiect. Dylid rhoi esboniad o'r rhesymau am hyn hefyd.

40. Caiff eich ymateb ei gyhoeddi ar dudalen prosiect Atomfa Wylfa Newydd ar wefan y Porth Cynllunio:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/wylfa-newydd-nuclear-power-station/> cyn gynted â phosibl ar ôl dydd Mawrth 31 Rhagfyr 2019.

41. Wedyn gwahoddir sylwadau gan y partion sydd â buddiant yn hyn o beth o fewn 28 diwrnod arall ynghylch y materion uchod yn unig. Yna bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr ymatebion a'r wybodaeth a ddaeth i law wrth ddod i benderfyniad ar y Cais.

42. Er mwyn caniatáu amser i'r camau uchod gael eu cymryd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn pennu dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad ar y Cais hwn, sef 31 Mawrth 2020. Mae datganiad wedi'i wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008.

43. Anfonir y llythyr hwn heb ragfarnu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a ddylid rhoi caniatâd datblygu i brosiect Atomfa Wylfa Newydd neu beidio, ac nid oes dim yn y llythyr hwn i'w gymryd fel pe bai'n awgrymu beth fyddai'r penderfyniad hwnnw neu ba gasgliadau terfynol y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud ar unrhyw fater penodol sy'n berthnasol i'r penderfyniad ar y cais

Yn gywir

Gareth Leigh

Gareth Leigh

Pennaeth Cynllunio'r Seilwaith Ynni



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

Telephone: 020 7215 5677
Email: beiseip@beis.gov.uk
Web: www.gov.uk/beis

To: Horizon Nuclear Power Limited
All Interested Parties, Health
and Safety Executive and Cadw
Cc

Your Ref:
Our Ref:
Date: 23 October 2019

Planning Act 2008 and the Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010

Application by Horizon Nuclear Power Limited for an Order Granting Development Consent for the proposed Wylfa Newydd Nuclear Power Station, Isle of Anglesey, North Wales

REQUEST FOR INFORMATION AND COMMENTS ON THE APPLICATION, AND NOTIFICATION OF THE SECRETARY OF STATE'S DECISION TO SET A NEW DATE FOR DETERMINATION OF THE APPLICATION - EN010007

Dear Sir or Madam,

Following the completion of the examination of the application for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station ("the Development") on 23 April 2019, the Examining Authority submitted a Report and Recommendation in respect of its findings and conclusions to the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy ("the Secretary of State") on 23 July 2019. In accordance with section 107 of the Planning Act 2008, the Secretary of State has three months to determine the application.

